***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2022 No. 666

# Rheoliadau Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 (Diwygiadau Canlyniadol) (Is-ddeddfwriaeth) (Rhif 1) 2022

**Rheoliadau Gwybodaeth Ysgolion (Cymru) 2011**

**8.**—(1) Mae Rheoliadau Gwybodaeth Ysgolion (Cymru) 2011(**1**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Mae'r diwygiadau hyn yn cymryd effaith mewn cysylltiad â disgyblion sydd—

(a) o 1 Medi 2022—

(i) mewn blwyddyn derbyn mewn ysgol a gynhelir;

(ii) ym mlynyddoedd 1 i 6 mewn ysgol a gynhelir;

(iii) ym mlwyddyn 7 mewn ysgol a gynhelir pan fo'r pennaeth a'r corff llywodraethu wedi mabwysiadu cwricwlwm perthnasol o dan Ran 2 o Ddeddf 2021;

(b) o 1 Medi 2023—

(i) ym mlwyddyn 7;

(ii) ym mlwyddyn 8;

(c) o 1 Medi 2024 ym mlwyddyn 9 mewn ysgol a gynhelir;

(d) o 1 Medi 2025 ym mlwyddyn 10 mewn ysgol a gynhelir;

(e) o 1 Medi 2026 ym mlwyddyn 11 mewn ysgol a gynhelir.

(3) Yn rheoliad 2(1)—

(a) hepgorer y diffiniad o "cyfnod sylfaen",

(b) hepgorer y diffiniad o "cyfnod allweddol",

(c) yn y diffiniad o "categori iaith", yn lle'r geiriau o "Diffinio ysgolion" hyd at "Cylchlythyr 023/2007" rhodder "Canllawiau ar gategoreiddio ysgolion yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg" a gyhoeddwyd gyntaf gan Weinidogion Cymru ar 16 Rhagfyr 2021",

(d) hepgorer y diffiniad o "asesiadau statudol", ac

(e) yn y lle priodol mewnosoder—

"ystyr "Cwricwlwm i Gymru" ("*Curriculum for Wales*") yw cwricwlwm a weithredir yn unol â Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021(**2**);".

(4) Yn Atodlen 2, ym mharagraff 8, yn lle "o'r Cwricwlwm Cenedlaethol ynglŷn â'r Gymraeg o dan adrannau 112, 113 neu 114 o Ddeddf 2002" rhodder "o elfen fandadol y Gymraeg, fel y'i nodir yn adran 3(2) o Ddeddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021, o dan adrannau 41, 42 ac 48 o'r Ddeddf honno".

(5) Yn Atodlen 3—

(**1**) O.S. 2011/1944 (Cy. 211), a ddiwygiwyd gan O.S. 2013/1944 (Cy. 53); mae offerynnau diwygio eraill ond nid yw'r un ohonynt yn berthnasol.

(**2**) Mae Rhan 2 o Ddeddf 2021 yn gwneud darpariaeth ar gyfer cynllunio, mabwysiadu a gweithredu cwricwlwm ar gyfer ysgolion a gynhelir, ysgolion meithrin a gynhelir, a darparwyr addysg feithrin a gyllidir ond nas cynhelir yng Nghymru. Gweler hefyd Ran 3 o Bennod 4 o'r Ddeddf honno am ddarpariaeth ynghylch cwricwlwm ar gyfer darpariaeth eithriadol o addysg mewn unedau cyfeirio disgyblion neu mewn mannau eraill.

(a) hepgorer paragraff 12,

(b) hepgorer paragraff 13,

(c) yn lle paragraff 16 rhodder—

"**16.** Crynodeb o'r cwricwlwm mabwysiedig fel sy'n ofynnol o dan adran 11(1)(b) o Ddeddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021.",

(d) ym mharagraff 17—

(i) yn lle "adran 71" rhodder "reoliadau a wneir o dan adran 71(7A)", a

(ii) hepgorer "neu addysg grefyddol",

(e) ym mharagraff 26(1)(a), yn lle "cyfnod allweddol" rhodder "grŵp oedran", ac

(f) ym mharagraff 26(2), yn lle "o'r Cwricwlwm Cenedlaethol yn Gymraeg o dan adrannau 112, 113 neu 114 o Ddeddf 2002" rhodder "o elfen fandadol y Gymraeg, fel y'i nodir yn adran 3(2) o Ddeddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021, o dan adrannau 41, 42 ac 48 o'r Ddeddf honno".